# Carers Registration and Referral Form

| | |
|---|---|
| **Name of Surgery** | |
| **Name of setting: (If applicable)** | |

IiC Buddsoddwyr mewn Gofalwyr / Investors in Carers

**Carmarthenshire**

wwcp Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru / West Wales Care Partnership

Please read the guidance notes about this form before filling it in. If you need help to fill in this form, a member of staff from your GP surgery will be able to help you.

| **Section A – Informing your GP surgery you are a Carer** | | | |
|---|---|---|---|
| Title (Mr / Mrs / Miss / Ms / Other): | | | |
| Your name: | | | |
| Address & postcode: | | | |
| Date of birth: | | Telephone: | |
| Email: | | | |
| Language preference: (Please circle) | Written: Welsh / English | Spoken: Welsh / English | Other (please specify) |
| **About the person or people that you care for:** | | | |
| What county do they live in? | | Your relationship to them (e.g. wife, son, mother, friend, etc): | |
| What illness, disability or condition do they have? | | | |

| **Section B: Help and support (please see notes for more information)** | **Please tick** |
|---|---|
| 1. Would you like to receive a free copy of **Carmarthenshire Carers News –** the newsletter for carers' | |
| 2. Would you like to receive a copy of the **Carmarthenshire Carers' Information Pack?** | |
| 3. Would you like an appointment with someone from the **Carers Information & Support Service** (this allows the service to go through information you may need and look at the support you may need to help you care for someone which might include a referral for a **Carers Needs Assessment**) | |

| **How would you say you are currently coping with your caring role? (please tick)** | | |
|---|---|---|
| **Coping well** | **Just managing** | **Really struggling** |
| **If you feel you are at crisis point please contact Delta Wellbeing on 0330 333 2222 directly** | | |

By signing this form, you are agreeing to be registered as a Carer at your GP surgery. If you say yes to anything in section B above, your details will be passed to the named organisation who will store and use your personal information so that they can help and support you in your caring role.

**Signed:** ................................................ **(Carer)** **Date**: ................................................

**For surgery staff only:** I confirm that I have **checked** the above information, the Carer has understood & signed the form and has been given a copy of the guidance notes & leaflet. If any in section B has been ticked post to: Carers Information Services, The Palms, Unit 3, 96 Queen Victoria Road, Llanelli, SA15 2TH or email info@carmarthenshirecarers.org.uk within **5 working days.**

**Name**…………………………………….**Signature**: ...................………………..….**Date**.......................

# Ffurflen Cofrestru ac Atgyfeirio Gofalwyr

**Enw'r Feddygfa:**

**Enw'r sefydliad:**
**(Os yw'n berthnasol)**

**Sir Gaerfyrddin**

Darllenwch nodiadau cyfarwyddyd y ffurflen hon cyn ei llenwi. Os bydd arnoch angen cymorth i lenwi'r ffurflen hon, bydd aelod o staff yn eich meddygfa deulu yn gallu eich helpu.

| **Adran A – Rhoi gwybod i'ch Meddygfa eich bod yn Ofalwr** | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl (Mr/Mrs/Miss/Ms/Arall): | | | |
| Eich enw: | | | |
| Cyfeiriad a chod post: | | | |
| Dyddiad geni: | | Ffôn: | |
| Cyfeiriad e-bost: | | | |
| Dewis Iaith: (rhowch gylch o amgylch eich ateb) | Ysgrifenedig: Cymraeg/Saesneg | Llafar: Cymraeg/Saesneg | Arall (nodwch) |
| **Gwybodaeth am y sawl yr ydych yn gofalu amdano/amdanynt**: | | | |
| Ym mha sir y mae'n byw? | | Eich perthynas ag ef/hi (e.e. gwraig, mab, mam, ffrind, ac ati): | |
| Pa salwch, anabledd, neu gyflwr sydd ganddo/ganddi? | | | |

| **Adran B: Cymorth a chefnogaeth (gweler y nodiadau am ragor o wybodaeth)** | **Ticiwch** |
|---|---|
| 1. A fyddech yn hoffi cael copi am ddim o **Newyddion Gofalwyr Sir Gaerfyrddin**, sef y cylchlythyr i ofalwyr? | |
| 2. A fyddech yn hoffi cael copi o **Pecyn Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Gaerfyrddin?** | |
| 3. A fyddech yn hoffi cael apwyntiad gyda rhywun o **Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr** (bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i drafod unrhyw wybodaeth y gallai fod arnoch ei hangen, ynghyd ag ystyried y cymorth y gallai fod arnoch ei angen i'ch helpu i ofalu am rywun, a allai gynnwys atgyfeiriad i gael **Asesiad o Anghenion Gofalwyr**). | |

| **Pa mor dda yr ydych yn ymdopi â'ch rôl ofalu ar hyn o bryd? (ticiwch)** | | |
|---|---|---|
| **Yn dda iawn** | **Yn weddol** | **Yn ei chael yn anodd** |
| **Os ydych chi'n teimlo eich bod chi ar bwynt argyfwng, cysylltwch â Lleisiant Delta ar 0330 333 2222 yn uniongyrchol** | | |

Trwy lofnodi'r ffurflen hon, rydych yn cytuno i gael eich cofrestru yn Ofalwr yn eich meddygfa deulu. Os byddwch yn cytuno i unrhyw beth a nodir yn Adran B uchod, bydd eich manylion yn cael eu rhannu â'r sefydliad a enwir, a fydd yn storio ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn eich helpu a'ch cefnogi yn eich rôl ofalu.

**Llofnod: ................................................ (Gofalwr)** **Dyddiad**: ................................................

**At ddefnydd staff y feddygfa yn unig:** Rwy'n cadarnhau fy mod wedi gwirio'r wybodaeth uchod, bod y Gofalwr wedi deall a llofnodi'r ffurflen, a'i fod wedi cael copi o'r nodiadau cyfarwyddyd a'r daflen. Os bydd Adran B wedi cael ei llenwi, anfonwch y ffurflen yn y post i'r cyfeiriad canlynol: Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr, Uned 3, The Palms, 96 Heol y Frenhines Victoria, Llanelli, SA15 2TH, neu trwy e-bost i info@carmarthenshirecarers.org.uk, a hynny cyn pen **pum niwrnod gwaith.**
**Enw:................................................llofnod:** ................................................ **Dyddiad:**........................

Buddsoddwyr mewn Gofalwyr | Investors in Carers

# Carers Registration and Referral Form
# Guidance Notes
# Carmarthenshire

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

## Are you a Carer?

Do you look after a family member or friend who cannot manage on their own because they have an illness, poor health, disability, mental health issue or an addiction? If so, then you are a Carer and there are a number of ways you could get help and support. The first step is to take a few moments to read these guidance notes and complete the form attached to this sheet.

## Why you should complete the Carer Registration Form

Your GP Surgery is part of the Investors in Carers (IiC) scheme aimed at making sure Carers receive health-related support. You should have been given a copy of the leaflet along with this registration and referral form. The leaflet provides more detail on the benefits of registering and having a referral as a Carer. It is helpful for your GP Surgery to know who you are caring for. If you would like your GP to know who you care for, please ask your GP surgery for a blank form to fill in. You and the person that you care for will need to sign the form.

## Section A

If you complete **Section A** of the form, you will be registered as a Carer at your GP surgery. This means your GP surgery will be able to help and support you in your caring role.

**Section B** shows some of the help and support that is available to Carers. If you say yes to anything in section B, your details will be passed to the organisation who will store and use your personal information so that they can help and support you.

- **Carer's Newsletter** – The Carmarthenshire Carers is a free newsletter (3 times a year) through which we pass information to Carers on services, details of events and issues that may concern them and the person(s) they care for. Your details will be held on a confidential database held by the Carers Information & Support Service and will not be shared with third parties.
- **Carmarthenshire Carer Information Pack** – containing information on a range of topics that will help you with your caring role including practical help, benefits and legal matters. There are contact details for other organisations that may be able to offer support to you and/or the person(s) you care for.
- **Carers Information & Support Service –** Our team of support staff provide information and support to carers. An appointment with a support worker, who can meet you in your own home, or at a preferred location, provides a listening ear and can help to prioritise your needs and better manage the impact of your caring role. They can also help you access other support services including a **Carers Needs Assessment**.

For further information about any of the above, please contact the Carers Information & Support Service on 0300 0200 002 or email info@carmarthenshirecarers.org.uk

## What happens when you hand the completed form back to your GP surgery?

You will be recorded as a Carer at your GP surgery. This means that all staff know that you are a Carer and you should receive the right advice and support. If you said yes to anything in section B on the form, your details will be passed to the organisations who will store and use your personal information so that they can help and support you. Your information will not be shared with any third party outside these organisations.

Buddsoddwyr mewn Gofalwyr | Investors in Carers

# Nodiadau Cyfarwyddyd
# Ffurflen Cofrestru ac Atgyfeirio Gofalwyr
# Sir Gaerfyrddin

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

## A ydych yn Ofalwr?

A ydych yn gofalu am aelod o'r teulu neu ffrind na all ymdopi ar ei ben ei hun oherwydd salwch, iechyd gwael, anabledd, problemau o ran iechyd meddwl neu gaethiwed? Os felly, rydych yn Ofalwr, ac mae yna nifer o ffyrdd y gallwch gael cymorth a chefnogaeth. Y cam cyntaf yw treulio rhai munudau yn darllen y nodiadau cyfarwyddyd hyn a llenwi'r ffurflen sydd wedi'i hatodi at y daflen hon.

## Pam y dylech lenwi'r Ffurflen Cofrestru Gofalwr?

Mae eich meddygfa deulu yn rhan o'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, sy'n anelu at sicrhau bod Gofalwyr yn cael cymorth sy'n gysylltiedig ag iechyd. Dylech fod wedi cael copi o'r daflen gyda'r ffurflen cofrestru ac atgyfeirio hon. Mae'r daflen yn rhoi rhagor o fanylion am fanteision cofrestru a chael eich atgyfeirio fel Gofalwr. Mae'n ddefnyddiol i'ch meddygfa deulu gael gwybod pwy yr ydych yn gofalu amdano. Os hoffech i'ch meddyg teulu wybod pwy yr ydych yn gofalu amdano, gofynnwch am ffurflen wag i'w llenwi yn eich meddygfa deulu. Bydd angen i chi a'r sawl yr ydych yn gofalu amdano lofnodi'r ffurflen.

## Adran A

Os byddwch yn llenwi **Adran A** o'r ffurflen, cewch eich cofrestru yn Ofalwr yn eich meddygfa deulu. Mae hyn yn golygu y bydd eich meddygfa deulu yn gallu eich helpu a'ch cefnogi wrth i chi ymgymryd â'ch rôl ofalu.

Mae **Adran B** yn amlygu'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i Ofalwyr. Os byddwch yn cytuno i unrhyw beth a nodir yn Adran B, bydd eich manylion yn cael eu rhannu â'r sefydliad, a fydd yn storio ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn eich helpu a'ch cefnogi.

1. **Cylchlythyr Gofalwyr** – mae Gofalwyr Sir Gaerfyrddin yn gylchlythyr sy'n rhad ac am ddim (3 gwaith y flwyddyn) lle rydym yn rhannu gwybodaeth â Gofalwyr am wasanaethau, manylion am ddigwyddiadau, a materion a allai effeithio arnynt hwy a'r sawl y maent yn gofalu amdano/amdanynt. Cedwir eich manylion ar gronfa ddata gyfrinachol gan y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr, ac ni fyddant yn cael eu rhannu â thrydydd partïon.
2. **Pecyn gwybodaeth i Ofalwyr Sir Gaerfyrddin** – mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau a fydd yn eich helpu gyda'ch rôl ofalu, gan gynnwys cymorth ymarferol a gwybodaeth am fudd-daliadau a materion cyfreithiol. Mae'n cynnwys manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau eraill a allai eich helpu chi a/neu'r sawl yr ydych yn gofalu amdano/amdanynt.
3. **Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr** – mae ein tîm o staff cymorth yn darparu gwybodaeth a chymorth i ofalwyr. Bydd apwyntiad gyda gweithiwr cymorth, a all gwrdd â chi yn eich cartref eich hun, neu mewn lleoliad dewisol, yn cynnig clust i wrando, a gall hefyd eich helpu i flaenoriaethu eich anghenion a rheoli effaith eich rôl ofalu yn well. Bydd hefyd yn eich helpu i fanteisio ar wasanaethau cymorth eraill, gan gynnwys **Asesiad o Anghenion Gofalwyr.**

I gael rhagor o wybodaeth am yr uchod, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr trwy ffonio 0300 0200 002 neu anfon neges e-bost i info@carmarthenshirecarers.org.uk

## Beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn cyflwyno'r ffurflen wedi ei llenwi i'ch meddygfa deulu?

Byddwch yn cael eich cofnodi yn Ofalwr yn eich meddygfa deulu. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl staff yn gwybod eich bod yn Ofalwr, a dylech gael y cyngor a'r cymorth cywir. Os byddwch yn cytuno i unrhyw beth a nodir yn Adran B o'r ffurflen, bydd eich manylion yn cael eu rhannu â'r sefydliadau, a fydd yn storio ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn eich helpu a'ch cefnogi. Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu ag unrhyw drydydd parti y tu allan i'r sefydliadau hyn.